**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

**CYNIGION I'W CYNNWYS YNG NGHYNLLUN LLEIHAU RISG YR AWDURDOD 2008/09**

**Adroddiad gan Simon Smith,
Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I hysbysu aelodau o argymhellion y Panel Gweithredol mewn perthynas â'r opsiynau dylai'r Awdurdod gynnwys yng Nghynllun Gweithredu ei Gynllun Lleihau Risg (RRP) ar gyfer 2008/09.

**2.** I edrych am gymeradwyaeth yr Awdurdod i gynnwys y cynigion hyn yn y Cynllun Gweithredu drafft fydd yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yng nghyfarfod Mehefin o'r Awdurdod, cyn ymgynghoriad cyhoeddus.

## Cefndir

**3.** Ym Mawrth 2006 fe gyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei ganllawiau i awdurdodau tân ac achub ar gynllunio lleihau risg – "Cymru Gwlad Fwy Diogel". Mae'r canllaw yn nodi'n glir fod rhaid i awdurdodau ddatblygu, ymgynghori, cymeradwyo a chyhoeddi eu RRP a/neu Chynllun Gweithredu erbyn 31ain Hydref yn flynyddol ac ymgymryd â phroses ymgynghori helaeth na allai barhau am lai na 12 wythnos. Yn ddilynol, cydymffurfiodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyda'r Canllaw a chyhoeddi ei Gynllun Lleihau Risg a Chynllun Gweithredu cyntaf, sef 2007/08, erbyn y dyddiad cau statudol o 31ain Hydref 2006.

**Cefndir** *(parhad)*

**4.** Gofynnir i awdurdodau gynhyrchu RRP neu gynllun gweithredu newydd yn flynyddol. Er mwyn cyflawni hyn, daeth y Gweithgor RRP at ei gilydd ar 30ain Ionawr 2007 i fforio meysydd i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu RRP yr Awdurdod o 2008/09 ymlaen.

**5.** Yn dilyn y cyfarfod cyntaf hwnnw, fe ofynnodd y Gweithgor am gael derbyn opsiynau mwy manwl ar

- sut i ostwng y nifer o farwolaethau tân; a
- sut y gellir cyflawni'r gwerth gorau o adnoddau y Gwasanaeth.

**6.** Yn ystod y cyfarfod nesaf ar 5ed Mawrth 2007, darparwyd papurau briffio i'r Gweithgor, oedd yn:

- amlinellu strategaeth **atal** newydd wedi ei hanelu i wneud "Gogledd Cymru yn lle diogelach i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef";
- amlinellu polisi newydd i ddelio gydag ymateb y Gwasanaeth i alwadau diangen o systemau larwm tân awtomatig fyddai'n cynorthwyo'r Gwasanaeth i **amddiffyn** y defnydd o adnoddau gwerthfawr;
- adolygiadau manwl y gellir eu dechrau o'r ffordd y cyflogir ac y defnyddir diffoddwyr tân llawn amser er mwyn gwella **ymateb** y Gwasanaeth i ddigwyddiadau gweithredol.
- mae'r angen i wella fframwaith rheoli perfformiad a threfniadau rheoli risg y Gwasanaeth yn gynhenid i'r holl nodau uchod.

**7.** Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r meysydd uchod, awgrymodd y Gweithgor fod y cynigion canlynol yn haeddu cael eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu drafft yr RRP ar gyfer 2008/09. Roedd y Panel Gweithredol yn cytuno gyda barn y Gweithgor ac yn argymell fod yr Awdurdod yn cydsynio â'r argymhellion hyn:

**Cefndir** *(parhad)*

8. **Atal:** i ymgynghori ar gynigion i gyflwyno rhaglen ddwys o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar draws Gogledd Cymru gyda golwg ar leihau'r nifer annerbyniol o farwolaethau tân yn yr ardal. Byddai'r strategaeth arfaethedig yn cynnwys ymgyrchoedd hysbysebu, cynhyrchu cyfeiriadau drwy system Gwasanaeth Tân uniongyrchol, mesurau i ddelio gyda llwyth gwaith sy'n cynyddu, ystyriaeth i systemau taenellu/atal arbenigol i unigolion penodol sy'n agored i niwed, meddalwedd rheoli perfformiad a systemau cofnodi ac arian i gadw'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. O dan y Strategaeth ddiwygiedig, byddai targedau uchelgeisiol yn cael eu gosod am Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Er mwyn cwrdd â'r targedau hyn, byddai angen arian ar gyfer rheoli gwybodaeth a byddai angen cyfannu'r system Diogelwch Tân Cymunedol â'r system rheoli diogelwch tân. Byddai hyrwyddo rhinweddau gosod systemau taenelli mewn adeiladau cyhoeddus ag eiddo domestig yn ffurfio rhan o'r strategaeth hon hefyd.

9. **Amddiffyn:** i ymgynghori ar argymhellion i gyflwyno polisi cadarn gyda golwg ar ostwng y nifer o alwadau diangen o larymau tân awtomatig. Mae'r polisi'n cynnig gweithredu rhaglen gofnodi flaengar i larymau tân awtomatig gyda'r Gwasanaeth. Byddai hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i gasglu gwybodaeth ar faint a sgôp y systemau a'r risg maen nhw'n ei gwarchod. Gallai'r Gwasanaeth benderfynu dynodi Rhif Cyfeirnod Unigryw (URN) fyddai yn cael ei ddefnyddio gan y person sy'n rheoli'r safleoedd i adnabod y system lle mae arwyddion tân pan yn eu pasio ymlaen at ystafell reoli'r Gwasanaeth.

10. **Ymateb:** i ymgymryd â dau adolygiad sylweddol – y cyntaf i swyddogion wrth gefn ar draws y Gwasanaeth ar lefelau Gweithredol, Tactegol a Strategaethol a'r ail i restru criwiau tân gyda golwg ar gynyddu argaeledd gwasanaeth.

**Cefndir** *(parhad)*

**11.** Yn y pen draw, gallai canlyniadau y mentrau 'Amddiffyn' ac 'Ymateb' a restrir uchod gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd fyddai ar gael i'w ail-fuddsoddi i'r strategaeth 'Atal' enwir uchod.

**12.** Mae'r aelodau wedi gwneud cais am gyfarfod pellach o'r Gweithgor RRP ar 21ain Mai 2007 i adolygu darganfyddiadau'r adolygiadau ymateb.

**13.** **Datblygiad Sefydliadol:** er mwyn i'r Awdurdod gyflwyno ei nodau atal, amddiffyn ac ymyrryd/ymateb, rhaid iddo ganolbwyntio ar ddau faes cysylltiedig o ddatblygiad sefydliadol – rheoli perfformiad a rheoli risg. Felly, drwy adeiladu ar y gwaith sydd wedi digwydd eisoes, mae angen i'r Awdurdod osod rheoli risg ym mhrosesau busnes yr Awdurdod. Mae hefyd yn gofyn am ddatblygiad pellach i'w ddiwylliant rheoli perfformiad ac am gryfhau ei systemau rheoli perfformiad i sicrhau fod personél mewn sefyllfa i reoli eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.

**Goblygiadau Ariannol**

**14.** Bydd y Cynllun Gweithredu drafft a gyflwynir i aelodau yn ystod cyfarfod mis Mehefin yr Awdurdod yn cynnwys, ble bo modd, gostau amcangyfrifedig/arbedion effeithiolrwydd disgwyliedig ar gyfer y cynigion a restrir.

**Argymhellion**

**15.** Argymhellir i'r Aelodau:

**15.1** gyd-fynd ag argymhelliad y Panel Gweithredol i gynnwys y cynigion uchod yn y Cynllun Gweithredu drafft fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ystod cyfarfod Mehefin am gymeradwyaeth i gael ei anfon am ymgynghoriad cyhoeddus; ac

**15.2** yn y cyfamser, i fwrw ymlaen i gychwyn trafodaeth anffurfiol ar y cynigion gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad.